Elin Jones AM/AC
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig
Minister for Rural Affairs

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ein Cyf / Our Ref: MB/EJ/0141/07

Alun Davies AC
Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

2nd November 2007

Annwyl Alun

**Parthed: Ymchwiliad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i TB yng Nghymru**

Fel y gwyddoch, mae ymrwymiad yng nghytundeb Cymru'n Un i gynnal rhaglen drylwyr i ddileu TB mewn gwartheg. Elfen hanfodol o'r rhaglen honno fydd yr angen i adolygu'r polisi presennol ar TB mewn gwartheg yng Nghymru, sy'n cynnwys hynt gwaith Llywodraeth ddiwethaf y Cynulliad i fynd i'r afael ag argymhellion Ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad i TB mewn gwartheg. Rwyf hefyd yn disgwyl i'r rhaglen hon ystyried safbwyntiau diweddariad yr Is-bwyllgor hwn o'r ymchwiliad.

Yn Atodiad 1, rwyf wedi atodi'r diweddaraf am hynt y gwaith ar argymhellion Ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ac rwyf wedi rhoi rhai sylwadau cychwynnol isod ar adroddiad terfynol y Grŵp Gwyddonol Annibynnol ar TB mewn Gwartheg.

Un o brif argymhellion Ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad oedd sefydlu Grŵp Gweithredu Cymru ar TB i drafod a rhoi cyngor i'r Gweinidog ar y pryd ar sut i roi'r argymhellion ar waith, ac i fynd i'r afael â materion penodol fel rhannu costau. Roedd y Grŵp, a gafodd ei gadeirio gan y Dirprwy Weinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar y pryd, yn cynnwys cynrychiolwyr o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Amaethwyr Cymru, y Gymdeithas Tir a Busnes yng Nghefn Gwlad, Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru, RSPCA, Cymdeithas Filfeddygol Gwartheg Prydain, Cyswllt Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Adran Iechyd Anifeiliaid. Cyfarfu'r Grŵp am y tro cyntaf ar 4 Tachwedd 2004, ac ar un ar bymtheg o achlysuron wedi hynny.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8522
Correspondence.Elin.Jones@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Cafodd y Grŵp drafodaethau hynod amrywiol, oedd yn cynnwys popeth o ddatblygu ymchwil i ymarferoldeb polisïau presennol, er enghraifft profion cyn symud a chyflwyno profion gama interfferon. Fodd bynnag, canolbwyntiwyd ar ddau brif faes TB mewn gwartheg: gwyliadwriaeth a rheolaethau ar wartheg; a'r prosiect Ardal Triniaeth Ddwys Bioddiogelwch.

Roedd y Grŵp hefyd yn gyfrifol am gomisiynu dwy astudiaeth; amcangyfrifon rhanbarthol o boblogaeth moch daear yn nhri rhanbarth Cymru (y Gogledd, y De-orllewin a'r Gororau), a'r Arolwg o Foch Daear Marw. Bydd y ddau yn werthfawr ar gyfer penderfyniadau yn y dyfodol ar reoli'r clefyd mewn moch daear. Yn Atodiad 2, rwyf wedi atodi copi o'r trydydd adroddiad o gynnydd, sef y mwyaf diweddar, a gyflwynwyd gerbron Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.

Cyflwynodd y Grŵp Gwyddonol Annibynnol ei adroddiad terfynol ym mis Mehefin 2007 yn dilyn bron deng mlynedd o waith. Er i'r Grŵp gael ei sefydlu i gynghori Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar y ffordd orau o fynd i'r afael â TB mewn gwartheg yn Lloegr, mae'r adroddiad yn cynnig tystiolaeth werthfawr ar gyfer llunio polisïau yng Nghymru.

Bydd canfyddiadau'r Grŵp Gwyddonol Annibynnol, adroddiad diweddar Syr David King ar Twbercwlosis mewn Gwartheg a Moch Daear, a thystiolaeth arall a phrofiad o wledydd eraill yn bwyntiau pwysig ar gyfer ystyried rhaglen i ddileu TB mewn gwartheg yng Nghymru.

Yn gywir

Elin Jones

**Elin Jones AC/AM**
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig
Minister for Rural Affairs